# GWEITHDREFN A PHOLISÏAU YNGHYLCH TARFU AR ASTUDIAETHAU AC ESTYN TERFYNAU AMSER AC ESTYNIADAU IDDYNT (MYFYRWYR YMCHWIL)

| | |
|---|---|
| **Teitl Y Ddogfen** | Gweithdrefn a Pholisïau ynghylch Tarfu ar Astudiaethau ac Estyn Terfynau Amser ac Estyniadau iddynt (Myfyrwyr Ymchwil) |
| **Fersiwn** | 5.0 |
| **Dyddiad a gymeradwywyd gan y Senedd / ASQC** | Cymeradwywyd gyntaf: 31.10.2018 (Y Senedd)<br>Fersiwn gyfredol: 25.05.2023 (ASQC) |
| **Dyddiad Dod I Rym** | 01.08.2023 |
| **Perchennog Y Ddogfen** | Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) |
| **Cysylltu** | pgr@caerdydd.ac.uk |
| **Rheoleiddio Rhiant** | Rheoliadau Astudio ac Ymgysylltu Myfyrwyr |
| **Dogfennau Cysylltiedig** | Polisi a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil)<br>Polisi ynghylch Cyflwyno Traethodau Gradd Ymchwil yn Hwyr |

**Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch.**

Mae'r polisi a'r weithdrefn hon yn cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch:

| Disgwyliadau ar gyfer Safonau | Disgwyliadau ar gyfer Ansawdd |
|---|---|
| | O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohono. |
| **Arferion Craidd o ran Safonau** | **Arferion Craidd o ran Ansawdd** |
| | Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i roi profiad academaidd o safon uchel. |
| | Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cynorthwyo myfyrwyr digonol a phriodol |

| | |
|---|---|
| | er mwyn rhoi profiad academaidd o safon uchel. |
| | Mae'r darparwr yn ymgysylltu'n weithredol â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, o ran safon eu profiadau academaidd. |
| | Mae gan y darparwr gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau sy’n deg ac yn dryloyw, ac sydd yn hygyrch i bob myfyriwr. |
| | Pan mae’r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n cyflwyno’r rheini mewn amgylcheddau ymchwil perthnasol a chefnogol. |
| | Mae’r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol. |
| **Arferion cyffredin o ran Aafonau** | **Arferion cyffredin o ran Ansawdd** |
| | Mae’r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn aml ac yn defnyddio’r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. |
| | Mae’r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr yn unigol ac ar y cyd yn natblygiad, sicrwydd a gwelliant ansawdd eu profiad addysgiadol. |

**Polisi a Gweithdrefnau ynghylch gohirio Astudiaethau ac estyn y Terfyn Amser (Myfyrwyr Ymchwil)**

Mae Canolfannau Cefnogi Myfyrwyr y Brifysgol yn cynnig amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau cefnogol. Mae’r rhain yn cynnwys cwnsela, cefnogaeth am anabledd a dyslecsia, a chyngor ariannol. Yn ychwanegol, mae gan Undeb y Myfyrwyr wasanaeth annibynnol Cyngor i Fyfyrwyr, sydd yn rhoi cyngor ac arweiniad di-duedd ar amrywiaeth o faterion personol ac academaidd. Mae’r gwasanaethau yng Nghanolfan Bywyd y Myfyrwyr a Chyngor i Fyfyrwyr ar gael i fyfyrwyr ymchwil ac mae'r naill wasanaeth a'r llall yn rhad ac am ddim, yn amhleidiol, yn gyfrinachol ac yn anfeirniadol.

Os ydych yn fyfyriwr rhyngwladol ac yn ystyried gwneud cais i ohirio astudiaethau neu geisio am estyniad, cewch eich cynghori'n gryf i ofyn am arweiniad gan yr adran Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol ynghylch goblygiadau fisa, cyn mynd ati i wneud cais.

## 1. Datganiadau cyffredinol

1.1. Mae'r polisi a'r weithdrefn hon yn berthnasol i fyfyrwyr ymchwil drwy gydol cyfnod eu hymgeisyddiaeth, gan gynnwys y cam 'cwblhau'r traethawd ymchwil', ailgyflwyno'n ffurfiol a'r cyfnod cywiro traethawd hir.

1.2. Nid yw'n gymwys ar gyfer myfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig a addysgir (gan gynnwys MRes). Mae polisi ar wahân ar gael i'r myfyrwyr hyn ynghylch gohirio astudiaethau.

1.3. Dylai myfyrwyr sy'n ymgymryd â Doethuriaethau Proffesiynol ddilyn y weithdrefn hon dim ond mewn perthynas â cham ymchwil y rhaglen. Yn achos rhaglenni Doethuriaeth Proffesiynol sydd heb gamau ‘a addysgir’ ac ‘ymchwil’ penodol (e.e. Doethur mewn Seicoleg Glinigol), bydd Cyfarwyddwr y Rhaglen yn penderfynu a fydd y polisi a’r weithdrefn hon, neu’r polisïau gohirio astudiaethau/amgylchiadau esgusodol ar wahân ar gyfer myfyrwyr a addysgir yn gymwys, fel sy’n briodol i’r ymgeisyddiaeth.

1.4. A chithau’n fyfyriwr ymchwil, chi sy'n gyfrifol am eich cynnydd academaidd. Mae parhau i fod wedi cofrestru ar eich rhaglen astudio yn amodol ar gynnal cynnydd digonol yn unol â'r Polisïau a Gweithdrefnau ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil. Os bydd amgylchiadau annisgwyl yn amharu ar eich gallu i astudio, neu'n effeithio ar eich cynnydd academaidd, dylech roi gwybod i'ch Ysgol cyn gynted â phosibl.

1.5. Dylid darllen y polisi a'r weithdrefn hon ar y cyd â'r Polisi a'r Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil).

## 2. Y Polisi

2.1. Os oes gennych amgylchiadau esgusodol, gallai fod yn briodol i chi ohirio eich astudiaethau dros dro neu ymestyn eich terfyniad amser.

2.2. Diffinnir **toriad mewn astudio** fel rhoi'r gorau i'ch gwaith yn llwyr am **fwy na 28 diwrnod**. Gall cyfnod o absenoldeb o lai na 28 diwrnod gael ei gymeradwyo gan eich Ysgol fel absenoldeb (gweler adran 4).

2.3. Nid yw'n hawl awtomatig i darfu eich astudiaethau gan fod disgwyl i chi gwblhau eich rhaglen astudio mewn un cyfnod parhaus, lle bo hynny'n bosibl.

2.4. Gallech fod eisiau cymryd seibiant o'ch astudiaethau am resymau heblaw amgylchiadau esgusodol, er enghraifft ymgymryd â lleoliad/interniaeth proffesiynol neu at ddibenion Absenoldeb Mamolaeth, Rhiant neu Fabwysiadu.

2.5. Mae **estyniad i'ch terfyn amser** yn estyniad cymeradwy i'ch ymgeisyddiaeth er mwyn rhoi ystyriaeth i amhariad sylweddol ar eich astudiaethau na allwch ei liniaru o fewn gweddill eich ymgeisyddiaeth.

2.6. Mae ceisiadau i ohirio astudiaethau neu am estyniad i'r terfyn amser yn cael eu craffu'n drylwyr ac ni chân nhw eu cymeradwyo oni bai bod y seiliau a nodwyd yn bodloni'r meini prawf a nodir isod ac y gellir eu gwirio gan dystiolaeth ddogfennol (gweler Polisi a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil))

2.7. Nid yw cynnydd academaidd annigonol yn cyfiawnhau gohirio neu dderbyn estyniad: ni chaiff cais ei gymeradwyo ar y sail bod angen rhagor o amser arnoch i gwblhau eich traethawd ymchwil yn unig.

2.8. Ni chaniateir cais i ohirio neu ymestyn astudiaethau os bydd hynny’n golygu bod cyfanswm hyd eich ymgeisyddiaeth yn hirach na’r terfyn amser cyffredinol ar gyfer eich rhaglen a nodir yn y Rheoliadau Gradd Ymchwil.

2.9. Os byddwch yn cyflwyno ceisiadau yn aml i darfu ar astudiaethau a/neu estyniadau i'ch terfyn amser ar sail amgylchiadau esgusodol, gall eich Ysgol gysylltu â chi i archwilio eich amgylchiadau.

2.10. Os oes gan yr Ysgol bryderon sy’n cynyddu ynghylch iechyd meddygol, seicolegol neu emosiynol unrhyw fyfyriwr, gallai Pennaeth yr Ysgol gychwyn y Polisi a Gweithdrefn Ymyriad i Gefnogi.

2.11. Mewn amgylchiadau eithafol, gall Pennaeth yr Ysgol wneud cais i darfu ar astudiaethau neu ymestyn y terfyn amser ar eich rhan.

**Meini prawf**

2.12. Ni chewch wneud cais i **ohirio eich astudiaethau** neu **ymestyn eich terfyn amser** oni bai bod amgylchiadau sy'n ymwneud ag o leiaf un o'r meini prawf canlynol wedi effeithio arnoch:

.1 Salwch — salwch neu anaf difrifol â chyfyngiad amser; cyflwr iechyd tymor hir, anabledd sydd newydd gael diagnosis neu sydd wedi

gwaethygu neu sy'n gyfnewidiol, nad oes modd rhoi addasiadau rhesymol ar waith ar eu cyfer.

.2 Sail dosturiol – newid yn eich amgylchiadau personol (domestig neu deuluol), megis marwolaeth aelod agos o'r teulu neu berson o bwys, newid na ragwelwyd mewn dyletswyddau gofal (salwch person sydd yn ddibynnol arnoch, er enghraifft), caledi ariannol neu ddioddef trosedd ddifrifol.

.3 Ymrwymiadau proffesiynol eithriadol (myfyrwyr rhan-amser yn unig) – os ydych yn fyfyriwr **rhan-amser** yn gweithio ochr yn ochr â'ch astudiaethau a bod eich ymrwymiadau gwaith yn newid yn annisgwyl neu nid oes modd eu hosgoi. Ystyrir bod ymgymryd â chyflogaeth yn ganlyniad arferol astudiaeth ddoethurol ac nid yw'n sail i ymyrraeth nac estyniad pan fydd myfyriwr ar gam cwblhau ei draethawd ymchwil.

.4 Lleoliadau proffesiynol/interniaethau/profiad gwaith – os ydych yn ymgymryd â lleoliad/interniaeth neu gyfnod o brofiad gwaith a gefnogir gan eich goruchwylydd yn ystod **cyfnod pan mae ffioedd yn daladwy**, ac nad ystyrir bod hynny'n hanfodol i'ch rhaglen ac o fewn y terfyn amser a gynlluniwyd ar ei chyfer.[1]

.5 Anawsterau ymarferol/logistaidd na ellir eu hosgoi — anawsterau anochel ac aflonyddgar y tu hwnt i'ch rheolaeth sy'n effeithio ar eich cynnydd am gyfnod arwahanol o'ch ymgeisyddiaeth. Dylid rhoi gwybod i'ch Ysgol am unrhyw bryderon neu faterion penodol pan maent yn codi, oherwydd ni chaniateir y rhain fel sail ôl-weithredol ar gyfer estyniad.

.6 Absenoldeb Mamolaeth/Rhiant/Mabwysiadu — gweler Polisi ar Absenoldeb Mamolaeth, Mabwysiadu, Tadolaeth/Partner a Rhiant ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil.

.7 Gwasanaeth rheithgor neu wasanaeth milwrol gorfodol.

.8 Swydd Sabothol.

## 3. Cais i Ohirio Astudiaethau

3.1. Dylid cyflwyno cais i dorri ar draws astudiaethau drwy eich Ysgol. Dylech gyflwyno Amgylchiadau Esgusodol: Addasiad i Ffurflen y Rhaglen (Myfyrwyr Ymchwil) a dogfennau ategol perthnasol i Swyddfa eich Ysgol.

3.2. Ystyrir ceisiadau yn unol â'r Polisi a'r Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil).[2] Bydd Grŵp Amgylchiadau Esgusodol eich Ysgol yn

[1] Cynghorir myfyrwyr sy'n cael eu hariannu gan y Cyngor Ymchwil i wirio telerau ac amodau eu hysgoloriaeth cyn gwneud cais i ohirio astudiaethau. Ni chaniateir i ddeiliaid fisa Llwybr Myfyriwr (Haen 4 yn flaenorol) ymgymryd â lleoliadau, profiad gwaith neu interniaethau nad ydynt yn rhan annatod o'u rhaglen, ac eithrio os yw'r gweithgaredd yn cael ei gynnal yn gyfan gwbl y tu allan i'r DU. Os yw'r gweithgaredd y tu allan i'r DU, gellir gwneud cais i darfu ar astudiaeth: nodwch, os yw'r cyfnod dros 60 diwrnod, byddwn yn rhoi gwybod i'r Swyddfa Gartref am y Toriad Astudio.

[2] Gweler adran 6 am geisiadau 'categori arbennig'.

ystyried eich cais ac yn darparu adroddiad i Gyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig eich Ysgol, a fydd yn gwneud argymhelliad ynghylch eich cais. Yna, bydd y cais llawn yn cael ei ystyried gan Ddeon Ôl-raddedig y Coleg.

3.3. Rhaid i gais i Ohirio Astudiaethau gael ei gyflwyno **cyn i'r gohiriad arfaethedig gychwyn**. Ni fydd ceisiadau ôl-weithredol yn cael eu hystyried oni bai bod sail gymhellol dros wneud hynny.

3.4. Dylai cyfnod yr absenoldeb fod yr un byrraf posibl sy'n caniatáu i'r amgylchiadau ddod i ben. Y cyfnod hwyaf ar gyfer torri ar draws astudiaethau yw 12 mis. Ystyrir cais pellach a fyddai'n ymestyn cyfnod yr absenoldeb y tu hwnt i 12 mis yn unig pan fo amgylchiadau'n gymhellol.

3.5. Dylech fod yn ymwybodol y gallai cymryd cyfnod o ohirio astudiaethau effeithio ar unrhyw fenthyciad neu ysgoloriaeth a gewch. Os oes cyfiawnhad gwrthrychol, ni fydd rhai noddwyr yn caniatáu cyfnod gohirio astudiaethau am unrhyw gyfnod sylweddol (e.e. os oes rhaid cwblhau prosiect o fewn amserlen benodol).

3.6. Os ydych yn ddeiliad fisa, gallai gohirio astudiaethau effeithio ar eich hawl i barhau yn y DU; mae'n ofynnol i'r Brifysgol roi gwybod am unrhyw absenoldeb o dros 60 diwrnod i Fisâu a Mewnfudo y DU. Dylech ofyn am arweiniad gan Gymorth Fisa Myfyrwyr cyn gwneud cais.

3.7. Pe caniateir i chi ohirio astudiaethau am resymau salwch, gallai fod yn ofynnol i chi roi tystiolaeth eich bod yn iach ac yn abl i dychwelyd at eich astudiaethau, cyn cael caniatâd i ail-ymrestru. Gallai hynny gynnwys datganiadau gan feddyg teulu neu ymarferydd sy'n rhoi triniaeth, a/neu ddatganiad iechyd galwedigaethol.

3.8. Os yw'r Brifysgol yn cymeradwyo cais i ohirio astudiaethau, caiff y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich traethawd hir ei addasu gan gyfnod sy'n adlewyrchu hyd y gohirio (os yw'n 28 diwrnod neu ragor o ran hyd). Ni fydd yn ofynnol i chi wneud cais ar wahân er mwyn ymestyn eich dyddiad cau.

3.9. Pan fydd disgwyl i chi ddychwelyd i astudio, gofynnir i chi nodi eich bwriad drwy'r dasg SIMS Ar-lein. Os ydych wedi penderfynu peidio â dychwelyd i astudio ar y dyddiad hwn, rhaid i chi roi gwybod i'r Brifysgol beth yw eich cynlluniau.

**Eich Hawliau yn ystod Cyfnod Gohirio**

3.10. Yn ystod cyfnod o darfu ar eich astudiaethau, byddwch yn parhau i fod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd, ond byddwch yn gohirio ymgysylltu â'ch rhaglen gradd ymchwil, a bydd mynediad at rai o wasanaethau'r Brifysgol yn cael eu cwtogi. Bydd eich cofnod myfyriwr yn adlewyrchu nad ydych yn ymgysylltu'n weithredol â'ch rhaglen drwy gydol yr ymyrraeth.

3.11. Yn ystod y cyfnod gohirio, bydd y canlynol ar gael ar eich cyfer:

- mynediad i TG, ebost a'r fewnrwyd, gan gynnwys SIMS;

- adnoddau electronig llyfrgelloedd;
- mynediad cyhoeddus i’r llyfrgelloedd ac adeiladau’r Brifysgol.
- mynediad i Undeb y Myfyrwyr - Cyngor Myfyrwyr;
- defnyddio gweithdrefnau cwyno, adolygu ac apelio myfyrwyr;
- mynediad i wasanaethau Cefnogi Myfyrwyr os oes cefnogaeth barhaus fel cwnsela wedi dechrau;
- mynediad i ddefnyddio Canolfan Gofal Dydd y Brifysgol;
- mynediad at holl dystysgrifau’r Dreth Gyngor a gyflwynwyd i chi. (Bydd gan rai myfyrwyr sydd wedi gohirio eu hastudiaethau hawl i gael tystysgrif newydd, ond mae hyn yn ddibynnol ar Reoliadau Treth y Cyngor sydd mewn grym ar yr adeg berthnasol.)

3.12. Yn ystod y cyfnod gohirio, ni chewch:

- eich goruchwylio drwy gyfarfodydd neu ohebiaeth.
- fod yn destun i fonitro cynnydd;
- fynediad i labordai, mannau gwaith na swyddfeydd yn eich Ysgol, na mannau gwaith yn yr Academi Ddoethurol.
- gymryd rhan mewn gweithdai hyfforddiant, seminarau ymchwil neu ddigwyddiadau mae eich Ysgol neu’r Academi Ddoethurol (efallai bydd Diwrnodau Cadw mewn Cysylltiad yn eithriad);
- cael caniatâd i ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud â datblygiad ymchwilwyr proffesiynol;
- ni fydd disgwyl i chi gyflwyno eich gwaith mewn cynadleddau fel arfer, na chael eich cefnogi i wneud hynny, ond gallai hyn fod yn briodol mewn rhai amgylchiadau;
- dderbyn gwybodaeth am gyflogaeth neu gyfleoedd gwirfoddol sydd ar gael yn ystod y cyfnod;
- os ydych yn cael eich cyflogi gan y Brifysgol drwy’r Siop Swyddi, efallai y bydd angen i ni ddod â’ch contract cyflogaeth i ben os ydych yn gohirio oherwydd salwch.

3.13. Os ydych yn byw yn llety'r Brifysgol, dylech ofyn am gyngor gan y Gwasanaethau Preswyl cyn gwneud cais, oherwydd efallai y bydd gofyn i chi adael y llety yn dibynnu ar hyd y toriad. Bydd eich contract yn cael ei addasu heb gosb a byddwch yn cael rhybudd i adael yn unol â’ch cytundeb llety. Bydd Gwasanaethau Bywyd Myfyrwyr yn gallu eich cynghori ar lety arall, os bydd angen cymorth arnoch.

**Gohirio Astudiaethau wrth 'Gwblhau Traethawd Ymchwil'**

3.14. Nid yw toriad o astudio yn addasiad arferol pan fyddwch yng nghyfnod cwblhau eich traethawd ymchwil. Er bod gofyn i chi gadw cysylltiad â'ch goruchwylwyr, ac y bydd eich cynnydd yn cael ei fonitro, efallai na fyddwch yn gweithio ar eich traethawd ymchwil yn rheolaidd, ac nid yw cymryd seibiannau o'ch traethawd ymchwil oherwydd amgylchiadau eraill yn anarferol. Yn ogystal, canlyniad toriad astudio yw bod taliadau ffioedd a chyflog yn cael eu hatal, ac yna'n cael eu hailgychwyn pan fydd myfyriwr yn cadarnhau ei allu i ddychwelyd i astudio. Nid yw'n berthnasol pan fyddwch yn cwblhau eich traethawd ymchwil. Os byddwch yn profi amgylchiadau esgusodol yn ystod cwblhau eich traethawd ymchwil sy'n cael effaith

andwyol sylweddol ar eich gallu i gyflwyno'ch traethawd ymchwil o fewn eich dyddiad cau, dylech wneud cais am estyniad i'ch terfyn amser.

3.15. Fodd bynnag, os oes angen i chi gymryd seibiant o'ch astudiaethau am gyfnod sylweddol yn ystod y cam 'cwblhau'r traethawd ymchwil' (ar gyfer absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu, neu os byddwch yn mynd yn ddifrifol sâl am gyfnod hir, er enghraifft), gallwch wneud cais am doriad ar eich astudiaethau yn unol â'r weithdrefn hon.

3.16. Nid yw'r canlynol yn seiliau cymwys dros darfu ar yr astudiaeth yn ystod y cam 'cwblhau'r traethawd ymchwil':

- ymrwymiadau proffesiynol;
- lleoliad, interniaeth neu brofiad gwaith arall.

## 4. Absenoldebau byr: ceisiadau absenoldeb

4.1. Diffinnir absenoldeb fel rhoi'r gorau i'ch gwaith yn llwyr am ddim mwy na 28 diwrnod.

4.2. Gall eich Ysgol awdurdodi cyfnod o absenoldeb am **hyd at 28 diwrnod.** Dylech lenwi Ffurflen Gais am Absenoldeb (Myfyrwyr Ymchwil) a'i chyflwyno gyda thystiolaeth ategol berthnasol i Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig eich Ysgol i'w hystyried gan y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig

4.3. Ni fydd absenoldeb yn arwain at unrhyw newidiadau i ddyddiadau neu ddyddiad cau eich rhaglen.[3] Mae hyn oherwydd bod disgwyl i chi wneud iawn am absenoldebau cyfyngedig o fewn cyfanswm cyfnod eich ymgeisyddiaeth drwy addasu eich Cynllun Ymchwil yn ôl yr angen. Lle nad yw hyn yn ymarferol oherwydd effaith gronnol absenoldebau byr, gallwch wneud cais i ymestyn eich dyddiad cau ar gyfer cyflwyno (gweler adran 5).

4.4. Os na allwch ddychwelyd i astudio ar ddiwedd cyfnod o absenoldeb a gymeradwywyd gan eich Ysgol, dylech wneud cais i ohirio astudiaethau all gael ei ôl-ddyddio i ddechrau eich absenoldeb: ni all y cyfnod ôl-weithredol fod dros 28 diwrnod o hyd.

## 5. Cais am estyniad i'r terfyn amser (dyddiad cau'r traethawd ymchwil)

5.1. Disgwylir i chi wneud iawn am gyfnodau cyfyngedig o darfu yn ystod eich astudiaethau drwy addasu eich Cynllun Ymchwil a/neu drwy ddefnyddio'r arian wrth gefn a ddarperir gan gyfanswm cyfnod eich ymgeisyddiaeth. Dylid derbyn cyngor gan oruchwylwyr ac adolygwyr i helpu i liniaru aflonyddwch ac i gefnogi cyflwyno o fewn eich dyddiad cau gwreiddiol lle bo hynny'n bosibl.

5.2. Os byddwch yn profi amgylchiadau annisgwyl yn ystod eich **cyfnod 'cwblhau traethawd ymchwil'** sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar eich gallu i gyflwyno'ch traethawd ymchwil o fewn eich dyddiad cau, gallwch

---

Eithriad yw ymyrryd ar astudiaethau ar sail Absenoldeb Tadolaeth/Partner. Mae gan fyfyrwyr hawl i hyd at 2 wythnos ar gyfer Absenoldeb Tadolaeth/Partner a bydd unrhyw absenoldeb a gymerir at y diben hwn yn arwain at addasiad i'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau gan gyfnod cyfatebol.

wneud cais i ymestyn eich terfyn amser erbyn cyfnod sy'n gymesur â'r amser yr effeithir arno.

5.3. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid gwneud cais am estyniad 2 i 4 mis cyn eich dyddiad cau ar gyfer cyflwyno. Ni chaiff ceisiadau a ddaw i law **lai na 2 fis** cyn y dyddiad cau eu hystyried, heblaw bod amgylchiadau argyhoeddiadol dros gyfiawnhau gwneud y cais yn hwyr. Ni fydd ceisiadau yn cael eu hystyried pan fydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno traethawd ymchwil wedi mynd heibio, oni bai bod rhesymau cymhellol.

5.4. Mewn achosion eithriadol, gallwch wneud cais am estyniad pan fyddwch yn eich **cyfnod 'talu ffioedd',** ac mae amgylchiadau esgusodol ysbeidiol nad oedd torri ar draws eich astudiaeth yn briodol ar eich cynnydd. Dim ond pan mae tystiolaeth glir wrth y **cam 9 mis/Adolygiad Blynyddol** nad yw addasiad (pellach) i'ch Cynllun Ymchwil i alluogi cyflwyno erbyn eich dyddiad cau presennol yn ddichonadwy y caiff cais ei ystyried.

5.5. Ni fydd estyniad yn cael ei ganiatáu ar gyfer amgylchiadau y dylid bod wedi eu rheoli fel toriad astudio.

5.6. Nid yw'r canlynol yn seiliau cymwys dros ymestyn y terfyn amser:
- ymrwymiadau proffesiynol;
- lleoliad, interniaeth neu brofiad gwaith arall.

5.7. Dylid gwneud cais am estyniad i'r terfyn amser i'ch Ysgol ar y cyfle cyntaf. Bydd eich Ysgol yn ystyried eich cais ac yn gwneud argymhelliad i Ddeon Ôl-raddedig y Coleg perthnasol. Deon Ôl-raddedig Coleg drwy Lywodraethu Addysg (PGR Ansawdd a Gweithrediadau).

5.8. Gallwch wneud cais i ymestyn eich dyddiad cau ar fwy nag un achlysur, ond dylai cais am estyniad pellach ddangos amgylchiadau newydd neu barhaus sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer estyniad, ac sydd wedi codi yn y cyfnod estynedig yn unig.

## 6. Ceisiadau Categori Arbennig

6.1. Efallai yr hoffech doriad o'ch astudiaethau neu ymestyn eich terfyn amser ar unrhyw un o'r seiliau canlynol, nad ydynt wedi'u diffinio fel amgylchiadau esgusodol:
- Absenoldeb Mamolaeth/Rhiant/Mabwysiadu
- Lleoliadau proffesiynol/interniaethau neu brofiad gwaith
- Gwasanaeth rheithgor neu wasanaeth milwrol gorfodol
- Swydd Sabothol.

6.2. Dylech gwblhau'r adrannau perthnasol o'r Amgylchiadau Esgusodol: Ffurflen Addasiad Rhaglen Ymchwil a chyflwynwch y cais gyda thystiolaeth ategol i'ch Swyddfa Ysgol fel y disgrifir uchod.

6.3. Yng nghyd-destun absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu neu riant, gall tystiolaeth addas gynnwys ffurflen MATB1, tystysgrif geni’r plentyn neu

dystiolaeth o leoli plentyn i’w fabwysiadu.

6.4. Yn achos lleoliadau/interniaethau neu brofiad gwaith, dylech ddarparu datganiad sy'n amlinellu'r prif sgiliau a'r wybodaeth y byddwch yn eu caffael, a sut y bydd y profiad yn helpu i gefnogi eich datblygiad ehangach fel ymchwilydd doethurol.

6.5. Ni chaiff ceisiadau a wneir ar y seiliau hynny eu hystyried gan Grŵp Amgylchiadau Esgusodol eich Ysgol, ond bydd Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig eich Ysgol yn eu hystyried yn y lle cyntaf. Bydd y cais yn cael ei anfon ymlaen at Lywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) i'w ystyried gan Ddeon Ôl-raddedig Coleg.

6.6. Os ydych ar Absenoldeb Mamolaeth neu Fabwysiadu, efallai yr hoffech chi gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'ch ymchwil neu’ch hyfforddiant doethurol megis cymryd rhan mewn cynhadledd neu weithdy, neu gwrdd â'ch goruchwyliwr neu aelodau o'ch labordy ymchwil. Dylid cytuno ar Ddiwrnodau Cadw mewn Cysylltiad ymlaen llaw gyda'ch goruchwyliwr / goruchwylwyr ac ni ddylai fod yn fwy na 10 diwrnod ar draws cyfanswm y cyfnod gwyliau.

## 7. Cyfleu canlyniad eich cais

7.1. Cewch wybod beth yw penderfyniad Deon Ôl-raddedig y Coleg yn ysgrifenedig ymhen **14 diwrnod** o wneud y penderfyniad. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau sy’n gysylltiedig â chymeradwyo a/neu, yn achos gohirio astudiaethau, unrhyw amodau y mae’n rhaid eu bodloni cyn y cewch ddychwelyd i’ch astudiaethau.

## 8. Ceisiadau Aflwyddiannus

8.1. Os na chymeradwyir eich cais, bydd eich cofnod myfyriwr yn aros yr un fath. Ymdrinnir ag unrhyw gyfnod o absenoldeb sydd heb ei awdurdodi o dan Bolisi a Gweithdrefn ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltiad Anfoddhaol (Myfyrwyr Ymchwil). Os nad ydych yn cyflwyno eich traethawd ymchwil cyn y dyddiad cau, bydd eich ymgeisyddiaeth yn methu a chewch eich dileu o'ch rhaglen astudio. Efallai y caniateir i chi gyflwyno'ch traethawd ymchwil fel Cyflwyniad Hwyr (gweler y Polisi ar Gyflwyno Traethodau Ymchwil Gradd Ymchwil yn Hwyr).

## 9. Apeliadau

9.1. Os na chymeradwyir eich cais i ohirio astudiaethau neu estyniad, neu os caiff ei gymeradwyo ar gyfer hyd gwahanol i’r un y gofynnwyd amdano, cewch ofyn am adolygiad o’r penderfyniad gan Weithdrefn Adolygu’r Brifysgol. Rhaid i gais am adolygiad gael ei wneud ar un neu ragor o’r seiliau a geir yn y Weithdrefn a rhaid i’r tîm Achosion Myfyrwyr yn y Gofrestrfa gael y cais o fewn 14 diwrnod o anfon yr hysbysiad.